# Asesiad Strwythuredig 2020 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1946A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 6

Rheoli adnoddau ariannol 15

Cynllunio gweithredol 18

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

1 Mae’r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd). Fe wnaed y gwaith i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod wedi’i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Digwyddodd gwaith Asesu Strwythuredig eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn ymateb i’r heriau digynsail a pharhaus a achosir gan bandemig COVID-19. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fframwaith o gamau gweithredu i helpu i baratoi’r system ar gyfer yr hwrdd disgwyliedig o achosion COVID-19. Roedd y fframwaith yn cynnwys rhoi’r gorau i weithgarwch wedi’i gynllunio difrys a llacio targedau a threfniadau monitro ar draws y system iechyd a gofal. Cyflwynwyd trefniadau ariannu brys hefyd i hwyluso’r ystod eang o gamau gweithredu yr oedd eu hangen i ymateb ar frys i bandemig COVID-19.

3 Cytunwyd ar gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer 2020-21 a’r rheiny’n cael eu hategu gan ganllawiau chwarterol a oedd yn nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio’r ymateb i gam nesaf y pandemig, ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, a symud tuag at adferiad graddol gwasanaethau rheolaidd.

4 Cynlluniwyd ein gwaith yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i’r pandemig i sicrhau dull digon pragmatig i helpu’r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i’r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19[1]. Roedd ffocws allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i’r cynnydd a wnaed o ran mynd i’r afael ag argymhellion blaenorol[2] lle’r oedd y rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol yn enwedig dan yr amgylchiadau cyfredol.

5 Mae’r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio gweithredol i ategu’r ymateb parhaus i’r pandemig gan daro cydbwysedd â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

[1] Cafodd y broses o gyflawni ein gwaith ei chydlynu gydag adolygiad cyflym y tîm Archwilio Mewnol o lywodraethu a oedd yn cynnwys profi pellach ar reolaethau allweddol a nodir yn yr adroddiad hwn.

[2] Mae’r argymhellion blaenorol i’w gweld yn ein hadroddiad ar gyfer 2019.

# Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da gan addasu ei drefniadau llywodraethu'n gyflym i ymateb i heriau'r pandemig. Mae trefniadau rheoli ariannol yn dal i fod yn gadarn ond mae costau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn creu risg o ddiffyg ariannol. Mae cynlluniau chwarterol yn nodi camau i ailgychwyn gwasanaethau wedi'u cynllunio mewn modd diogel a'r adnoddau sy'n ofynnol, ond nid yw'r drefn ar gyfer adrodd ar gyflawni'r cynlluniau wedi'i chadarnhau eto.

7 Mae Bwrdd sefydlog a chydnerth wedi arwain y sefydliad trwy'r pandemig, gyda chamau'n cael eu cymryd i roi cymorth i gynnal busnes yn agored a gwneud penderfyniadau'n gyflym. Mae'r Bwrdd yn dal i fod yn ymrwymedig i wella'n barhaus ac i ddysgu gwersi i lunio a chryfhau trefniadau llywodraethu.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau agweddau ar sicrwydd y bwrdd a rheoli risgiau ac wedi cynnal mecanweithiau sicrwydd pwysig yn ystod COVID-19, ond mae cyfleoedd pellach yn bodoli. Mae risgiau strategol wedi'u disgrifio'n glir, a'r gofrestr risgiau corfforaethol wedi'i mireinio, ond nid yw trosolwg systematig gan y Bwrdd ar risgiau i gyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol yn ei le eto. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal systemau sicrhau ansawdd a diogelwch ar gyfer cleifion a'r gweithlu ac mae cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio'n dal i fod yn destun craffu a herio.

9 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol ac yn 2019-20 fe fantolodd y cyfrifon ac fe gyflawnodd ei ddyletswyddau ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gyflawni ei gynllun ariannol, ond mae costau parhaus sy'n ymwneud â COVID-19 yn debygol o arwain at fethiant i fantoli'r cyfrifon yn 2020-21. Ar ddiwedd mis Gorffennaf roedd diffyg arbedion o £28 miliwn yn ôl yr amcangyfrif a'r rhagolygon yn dangos diffyg o £68 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

10 Cafodd cynlluniau gweithredol chwarterol eu datblygu mewn ffordd amserol. Caiff y cynlluniau chwarterol eu goleuo gan ymarfer modelu data ac maent yn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru yn ogystal ag elfennau pwysig o Strategaeth Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd[3]. Mae cynlluniau adnoddau'n canolbwyntio ar sicrhau staffio digonol a chapasiti digonol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio gyda ffocws ar ddatblygu ffyrdd ystwyth a newydd o weithio. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd ar gyflawni ei gynlluniau chwarterol eto; mae disgwyl iddo adrodd yn ffurfiol ym mis Tachwedd .

11 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn seiliedig ar ein gwaith yn 2020 ond rydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer gwella drwy'r adroddiad hwn. Byddwn yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y rhain ac argymhellion o 2019 sy'n dal heb eu cwblhau fel rhan o'n gwaith yn 2021.

[3] Y Strategaeth Dyfodol Clinigol yw strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd ar gyfer moderneiddio gwasanaethau clinigol ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

12 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn ac yntau hefyd yn gorfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a achosir gan y pandemig. Fe wnaethom hefyd adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol mewn perthynas â datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd ac ansawdd y gofrestr risgiau corfforaethol. Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da ar y cyfan yn ystod y pandemig**.

### Cynnal busnes yn effeithiol

#### Mae Bwrdd sefydlog wedi arwain y sefydliad yn ystod y pandemig, gyda chamau wedi'u cymryd i roi cymorth i gynnal busnes mewn modd agored, gwneud penderfyniadau'n gyflym a chyflawni gwelliannau parhaus i drefniadau llywodraethu

#### Cymerodd y Bwrdd Iechyd gamau rhesymol i gynnal busnes mewn ffordd agored a thryloyw yn ystod y pandemig

13 O ystyried cyfyngiadau ar ymgynnull yn gyhoeddus a rheoliadau cadw pellter cymdeithasol o ganlyniad i bandemig COVID-19, nid yw'r Bwrdd yn gallu cynnal cyfarfodydd yng ngŵydd y cyhoedd ac mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cynnal yn rhithwir. Cafodd cyfarfod cyntaf y Bwrdd yn ystod y pandemig ei gynnal ar sail cworwm o ystyried cyfyngiadau technoleg bryd hynny ac i gydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol. Cafodd Aelodau Annibynnol nad oeddent yn gallu ymuno â'r cyfarfod eu gwahodd i gyflwyno cwestiynau ymlaen llaw i helpu i gadw ffocws ar fusnes allweddol. Cafodd y cwestiynau hyn eu hystyried yn llawn a'u nodi yn y cofnodion. Mae aelodau'r Bwrdd wedi gallu ymuno ymhob cyfarfod ers hynny ac mae'r arfer o gyflwyno cwestiynau cyn cyfarfodydd y Bwrdd (a phwyllgorau) yn parhau.

14 Mae aelodau'r Bwrdd yn addasu i'r amgylchedd cyfarfodydd rhithwir gyda moesau cyfarfodydd yn cael eu nodi ar y dechrau gan gadeirydd y Bwrdd neu gadeiryddion pwyllgorau. Mae aelodau'r Bwrdd bellach yn fwy cyfarwydd â'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd rhithwir ac yn ennill profiad ohonynt, gan gynnwys defnyddio'r swyddogaethau sydd ar gael fel rhan o'r meddalwedd i godi cwestiynau yn ystod cyfarfodydd. Bu ychydig o fân broblemau gyda chysylltedd TG, ond nid yw'r rhain wedi bod yn rhwystr i gynnal cyfarfodydd ac mae hyfforddiant mwy ffurfiol ar gyfer aelodau'r Bwrdd ar ddefnyddio technoleg cyfarfodydd rhithwir yn yr arfaeth.

15 I hwyluso diwylliant mor agored a thryloyw â phosibl, roedd y Bwrdd Iechyd yn amcanu at gyhoeddi agendâu a phapurau mor bell â phosibl ymlaen llaw a chynhyrchu crynodebau ysgrifenedig o elfennau allweddol a chofnodion cyfarfodydd. Er bod crynodebau o gyfarfodydd a chofnodion cyfarfodydd yn cael eu

drafftio'n gyflym, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei uchelgais i gyhoeddi'r rhain ar ei wefan o fewn dau i bum niwrnod gwaith fel a fwriadwyd. Fodd bynnag, fe wnaeth rannu'r crynodebau'n gyflym gyda phartneriaid. Er mis Mehefin, mae cyfarfodydd y Bwrdd wedi bod yn cael eu ffrydio trwy sianel deledu YouTube y Bwrdd Iechyd gan alluogi'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill i wylio. Mae gwybodaeth gyfeirio a dolenni gwe hygyrch bellach yn gliriach ac yn fwy amserol. Nid yw cyfarfodydd pwyllgorau'n cael eu ffrydio'n fyw eto, ond mae trafodaethau ynglŷn â hyn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd rhwng grŵp cymheiriaid yr Ysgrifenyddion Bwrdd a Llywodraeth Cymru.

16 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gyfathrebu'n rheolaidd yn ystod y pandemig gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) a phartneriaid eraill, megis arweinwyr a Phrif Weithredwyr awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn enwedig lle'r oedd penderfyniadau'n arwain at newidiadau i ddarparu gwasanaethau. Defnyddiodd y Bwrdd Iechyd y ffrwd waith cyfathrebu Dyfodol Clinigol hefyd i ymgysylltu â'r CIC, tra bo'r Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Ymgysylltu wedi cael gorchwyl i ymgysylltu â'r CIC yn ystod COVID-19. Ers mis Mawrth, mae'r CIC wedi bod yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd rhithwir y Bwrdd i arsylwi ac mae'r Bwrdd wedi bod yn gofyn iddo gyfrannu lle y bo'n briodol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi gwneud defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r cyhoedd, er enghraifft rhedeg sesiynau holi ac ateb byw ar destunau pwysig fel ailgychwyn gwasanaethau.

## Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd addasu ei fframwaith llywodraethu'n gyflym ac yn effeithiol i ymateb i heriau'r pandemig

17 Ym mis Chwefror 2020, fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd strwythurau gorchymyn a rheoli argyfwng ar draws pob lefel o'r sefydliad er mwyn ymateb i'r pandemig yn strategol, yn dactegol ac yn weithredol. Roedd Cadeiryddiaeth y grŵp strategol yn cylchredeg ymhlith pedwar cyfarwyddwr gweithredol gan alluogi'r Prif Weithredwr i gyfathrebu'n rheolaidd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd a oedd yn newid yn gyflym.

18 Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd fecanwaith i dracio'r llu o ganllawiau a oedd yn ymwneud â COVID-19 ar ddechrau'r pandemig. Mae'r Grŵp Tactegol, trwy ei gell cyfathrebu, yn rheoli'r log ac offeryn tracio canllawiau gyda diweddariadau'n cael eu cyflwyno i bob un o gyfarfodydd y Grŵp Strategol. Mae trefniadau adrodd eglur yn sicrhau bod gwybodaeth feunyddiol yn llifo ar draws y strwythur gorchymyn a rheoli ac ar draws y sefydliad.

19 Fe gynigiodd y Bwrdd Iechyd ddiwygiadau i'w fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar ganllawiau a chyngor Llywodraeth Cymru, y craffodd y Pwyllgor Archwilio arnynt yn ei gyfarfod ym mis Ebrill. Cafodd y fframwaith llywodraethu diwygiedig a newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo eu cymeradwyo trwy Gam Weithredu gan y Cadeirydd yr wythnos ganlynol a'u cadarnhau wedyn gan y Bwrdd ym mis Mai. Cafodd y cam gweithredu gan y Cadeirydd ei ategu gan bapur mwy manwl a oedd yn nodi dull y sefydliad o addasu a chynnal trefniadau llywodraethu da yn ystod y

pandemig. Er nad yw'n hygyrch trwy wefan y Bwrdd Iechyd, mae'r papur hwn yn disgrifio ffyrdd o weithio, trefniadau ar gyfer cyfathrebu, tryloywder a natur agored, prosesau penderfynu ac amrywiadau i Reolau Sefydlog.

20 Fe arweiniodd diwygiadau i'r fframwaith llywodraethu at atal pwyllgorau'r Bwrdd dros dro, ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Phwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd yr olaf yn gallu cwrdd yn ôl yr angen gyda materion yn cael eu hadolygu'n gyson gan Gadeirydd y Pwyllgor a'r swyddog gweithredol arweiniol. Ym mis Mehefin, fe ailddechreuodd y Pwyllgor Cynllunio a Newid Strategol o ystyried bwriad y Bwrdd Iechyd i agor Ysbyty Prifysgol Grange yn gynnar o fis Tachwedd 2020. Cafodd materion a gedwir ar gyfer pwyllgorau unigol fel arfer eu dirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion neu eu hystyried gan y Bwrdd.

21 Fe wnaeth newidiadau dros dro i derfynau dirprwyedig alluogi'r grwpiau strategol a thactegol ac Ymgynghorwyr Costau'r Bwrdd Iechyd ar brosiect YPG i awdurdodi gwariant i sicrhau parhad busnes. Cafodd prosesau cymeradwyo lle'r oedd penderfyniadau ynglŷn â gwariant yn mynd y tu hwnt i'r terfynau dirprwyedig diwygiedig eu gwneud yn glir hefyd. I wella cydnerthedd ac ymatebolrwydd, fe gymeradwywyd llofnodwyr ychwanegol (un cyfarwyddwr gweithredol ac un Aelod Annibynnol) hefyd. Ar ddiwedd mis Mehefin, fe argymhellodd y Tîm Gweithredol fod newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo'n cael eu cadw tra bo'r strwythur rheoli'n dal yn ei le. Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r argymhelliad yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2020 gyda cham gweithredu gan y Cadeirydd yn cael ei gymryd yn fuan wedi hynny a'r Bwrdd yn ei gadarnhau ym mis Medi. Bydd y newidiadau dros dro i'r Cynllun Dirprwyo'n cael eu hadolygu'n ffurfiol eto ym mis Rhagfyr ond mae'r Bwrdd Iechyd wedi dynodi bod newidiadau'n debygol o aros yn eu lle tan ddiwedd mis Mawrth 2021.

22 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ei gylch o gyfarfodydd y Bwrdd a oedd wedi'u hamserlennu a rhai'r pwyllgorau sefydlog yn ystod y pandemig. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cynnal log o fusnes a chamau gweithredu arfaethedig a phenderfyniadau a ataliwyd dros dro yn ystod y pandemig i gael sylw dilynol ar adeg fwy priodol. O ystyried yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i baratoi adroddiadau yn ystod y pandemig, mae agendâu a chyfarfodydd wedi cael eu byrhau i ganolbwyntio ar faterion tyngedfennol i'r busnes a oedd yn gysylltiedig â phenderfyniadau neu sicrwydd gofynnol. Cafodd Storïau Cleifion eu hatal hefyd fel rhan o ddull diwygiedig y Bwrdd a'u hailgyflwyno ym mis Medi. Y bwriad oedd sicrhau nad oedd llawer o bapurau mewn cyfarfodydd gyda gwybodaeth nad oedd yn ofynnol gwneud penderfyniad yn ei chylch yn cael ei chylchredeg y tu allan i gyfarfodydd er nad yw hyn wastad wedi bod yn bosibl.

23 Canfu ein harsylwadau ni ar gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau fod aelodau'r Bwrdd yn ymgysylltu ac yn cyfranogi'n llawn mewn cyfarfodydd gyda chraffu a chwestiynu da mewn perthynas â'r wybodaeth a gyflwynir. Mae cyflwyno cwestiynau ymlaen llaw cyn y cyfarfodydd hefyd yn cynyddu ehangder a dyfnder y gweithgarwch craffu ac yn arwain at gofnodion mwy manwl ar gyfer cyfarfodydd. Mae sicrwydd gan bwyllgorau i'r Bwrdd yn gweithio'n dda trwy adroddiadau

ysgrifenedig cadeiryddion pwyllgorau. Mae gwybodaeth i ategu cymeradwyaeth i benderfyniadau ac i ddarparu sicrwydd ynghylch ansawdd, cyllid a pherfformiad wedi bod yn ddigon amserol.

24 Mae'r dull a ddogfennir gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer addasu a chynnal trefniadau llywodraethu da hefyd yn nodi'r ystod o faterion COVID-19, megis diogelwch a lles staff ac adroddiadau'r Grŵp Strategol, y dylid eu cynnwys ar agenda'r Bwrdd. Nid yw agendâu'r Bwrdd na phwyllgorau wedi bod yn cael eu strwythuro yn y ffordd yma. Mae materion brys sy'n ymwneud â COVID-19 yn cael eu dogfennu mewn papurau y mae'r Bwrdd yn eu cael, megis y cynllun ymateb i COVID-19 a'r cynlluniau gweithredol chwarterol. Fodd bynnag, roedd materion brys mewn perthynas â COVID-19 yn cael sylw mewn sesiynau briffio wythnosol ar gyfer Aelodau Annibynnol (gweler **paragraff 26**). Wrth i'r Bwrdd Iechyd symud i mewn i'r cam cynllunio ac adfer nesaf, mae cyfleoedd i gytuno pa wybodaeth am faterion sy'n ymwneud â COVID-19 ddylid adrodd yn rheolaidd arnynt wrth y Bwrdd neu ei bwyllgorau ar gyfer sicrwydd.

## Fe gymerodd y Bwrdd Iechyd y camau angenrheidiol i sicrhau Bwrdd sefydlog a chydnerth yn ystod y pandemig

25 Cytunwyd ar drydydd a phedwerydd dirprwyon i sicrhau bod cyfarfodydd y Bwrdd yn gallu parhau pe bai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn absennol. O ystyried bod nifer o bwyllgorau'r Bwrdd wedi cael eu tynnu'n ôl, gwahoddwyd Aelodau Annibynnol i arsylwi ar y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a sicrhau cydnerthedd yn ystod y pandemig. Cafodd y broses penodiadau cyhoeddus ei hatal yn ystod y pandemig ac mae disgwyl iddi ailddechrau ym mis Medi. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r Uned Penodiadau Cyhoeddus i flaenoriaethu ymarfer i recriwtio dau Aelod Annibynnol erbyn diwedd y flwyddyn. Cafodd penodiadau ymgynghorwyr arbennig y Bwrdd eu hestyn tan fis Mawrth 2021 hefyd i ddarparu capasiti yr oedd ei ddirfawr angen. Llanwyd dwy swydd cyfarwyddwr gweithredol ym mis Mawrth ar sail interim ag unigolion o fewn y Bwrdd Iechyd i gynnal parhad.

26 Cafodd sesiynau briffio'r Bwrdd ar gyfer Aelodau Annibynnol eu hwyluso gan Gyfarwyddwyr Gweithredol ac roeddent yn digwydd yn wythnosol, gan ddod i ben dim ond ar ddiwedd mis Gorffennaf i alluogi'r Tîm Gweithredol i gymryd absenoldeb yr oedd ei ddirfawr angen. Roedd y sesiynau briffio hyn yn sicrhau bod yr holl Aelodau Annibynnol yn ymwybodol o ymateb y sefydliad i'r pandemig a'r materion a risgiau cysylltiedig. Roedd sesiynau briffio'n rhoi sylw i faterion sefydlog megis cyfraddau heintio â COVID-19, gwariant, trefniadau llywodraethu, lles staff ac ansawdd a diogelwch gofal. Bu'r Cadeirydd yn cwrdd yn ddyddiol gyda'r Is-Gadeirydd i sicrhau parhad busnes a chydag Aelodau Annibynnol unigol bob pythefnos, tra bo'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi bod yn cwrdd yn ffurfiol ddwywaith yr wythnos. Roedd Aelodau Annibynnol hefyd yn cael papur briffio beunyddiol y sefydliad a oedd yn cael ei gylchredeg i'r holl staff.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn ymrwymedig i wella'n barhaus ac i ddysgu gwersi o'r pandemig i lunio a chryfhau trefniadau llywodraethu

27 Mae'r Bwrdd yn parhau i adolygu ei effeithiolrwydd ac ym mis Chwefror cymerodd aelodau ran mewn gweithdy arall a hwyluswyd yn annibynnol i brofi cynnydd yn erbyn set o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn 2019. Canolbwyntiodd y sesiwn hefyd ar ddiwygio dull y Bwrdd Iechyd o ran trefniadau rheoli risgiau a sicrwydd risgiau, a phenllanw hyn oedd y strategaeth rheoli risgiau ddiwygiedig a pharodrwydd i dderbyn risg y cytunwyd arno.

28 Yn 2019, canfuom fod adolygiadau o effeithiolrwydd y Bwrdd yn cael eu cynnal yn anfynych a bod pwyllgorau, dros y blynyddoedd diwethaf, heb fod yn paratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer y Bwrdd. Roedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno dull mwy cyson o asesu effeithiolrwydd pwyllgorau o ddechrau 2020 ac adfer adroddiadau blynyddol. Fodd bynnag, mae effaith COVID-19 yn golygu nad yw'r naill na'r llall wedi digwydd yn anad dim am bod pwyllgorau wedi cael eu hatal.

29 Ym mis Mai, rhoddodd y Bwrdd Iechyd gomisiwn i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i gynnal adolygiad cyflym o'i drefniadau llywodraethu addasedig yn ystod y pandemig er mwyn dysgu beth oedd wedi gweithio'n dda neu beth ellid ei wella pe ceid ail don. Trefnodd y Bwrdd Iechyd fod ei ymateb cynllunio at argyfwng a'i strwythurau gorchymyn a rheoli'n cael eu hadolygu'n anffurfiol hefyd. Un o'i bartneriaid ar y fforwm cydnerthedd lleol a gynhaliodd yr adolygiad ac fe ddarparodd sylwebaeth ar yr hyn a oedd yn gweithio'n dda yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer gwella.

30 Y llynedd, fe wnaethom adrodd ar newidiadau i strwythurau pwyllgorau, nad oedd rhai ohonynt wedi ymsefydlu'n llawn eto pan darodd y pandemig. Mae addasiadau diweddar i drefniadau llywodraethu'n golygu bod rhai pwyllgorau, megis y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, heb gwrdd am sawl mis. Mae'r trefniadau diwygiedig wedi bod yn cael eu hadolygu gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r cyfle a gynigir gan COVID-19 i fwrw golwg feirniadol ar ei fframwaith llywodraethu gyda hynny'n cael ei oleuo gan adborth gan aelodau'r Bwrdd a gwersi o arferion a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd y Bwrdd Iechyd yn cynnig lleihau nifer y pwyllgorau ac ailbennu ffocws eu gwaith ar ddeilliannau, cost-effeithiolrwydd, cynaliadwyedd, profiad staff a chleifion, gwerth am arian a gwella ansawdd yn barhaus. Mae disgwyl i bapur yn nodi'r cynigion gael ei drafod gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

## Systemau sicrwydd

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau agweddau ar sicrwydd y Bwrdd a rheoli risgiau ac wedi cynnal mecanweithiau sicrwydd pwysig yn ystod COVID-19, ond mae cyfleoedd pellach yn bodoli

#### Mae risgiau strategol wedi'u disgrifio'n glir, a'r gofrestr risgiau corfforaethol wedi'i mireinio, ond nid yw trosolwg systematig gan y Bwrdd ar risgiau i gyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol yn ei le eto

31 Yn 2019, roeddem yn feirniadol o gyflymder y cynnydd o ran datblygu fframwaith sicrwydd y Bwrdd, diffyg risgiau strategol wedi'u disgrifio'n glir mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ac ansawdd y gofrestr risgiau corfforaethol. Mewn cyfnod byr o ychydig fisoedd, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gwblhau fframwaith sicrwydd y Bwrdd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth ynghyd â'r strategaeth rheoli risgiau ddiwygiedig. Mae fframwaith sicrwydd y Bwrdd yn cofnodi nifer fach o brif risgiau, sy'n rhag-ddyddio pandemig COVID-19. Mae prif risgiau wedi cael eu diweddaru ers hynny i adlewyrchu effaith COVID-19 a'r addasiadau i'r fframwaith llywodraethu. Mae adolygiad canol blwyddyn o fframwaith sicrwydd y Bwrdd a'r datganiad ar barodrwydd i dderbyn risg gan y Bwrdd yn yr arfaeth ar gyfer mis Hydref o ystyried pandemig COVID-19, gofynion a blaenoriaethau cynllunio gweithredol newydd, ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau, ac agoriad cynnar arfaethedig YPG o fis Tachwedd. Bydd y Bwrdd yn cael adroddiad ffurfiol ar fframwaith sicrwydd y Bwrdd a pharodrwydd i dderbyn risg yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

32 Fe ddatblygodd Grŵp Strategol y Bwrdd gofrestr risgiau wedi'i neilltuo i COVID-19 sy'n nodi'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig ag ymateb y sefydliad i'r pandemig. Ceir rhywfaint o aliniad rhwng y gofrestr risgiau COVID-19 a'r gofrestr risgiau corfforaethol a'r prif risgiau a nodir yn fframwaith sicrwydd y Bwrdd, yn enwedig mewn perthynas â'r gweithlu a chynaliadwyedd ariannol. Mae'r gofrestr risgiau sydd wedi'i neilltuo i COVID-19 yn cael ei monitro gan y Grŵp Strategol ac mae'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion wedi craffu arni unwaith yn unig a herio camau lliniaru. Fodd bynnag, mae rheoli'r risgiau ar y gofrestr risgiau COVID-19 yn hanfodol i gyflawni cynllun gweithredol chwarter dau. Ceir cyfleoedd fel rhan o'r adolygiad canol blwyddyn o fframwaith sicrwydd y Bwrdd i ystyried y lefel o graffu a sicrwydd sy'n ofynnol gan y Bwrdd neu ei bwyllgorau mewn perthynas â'r risgiau i gyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol.

33 Cafodd ansawdd y gofrestr risgiau corfforaethol ei wella hefyd gydag achos ac effaith wedi'u disgrifio'n glir, ynghyd â graddfeydd amser i gyflawni camau lliniaru a chynnydd yn erbyn camau gweithredu. Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol hefyd yn cofnodi llawer o risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 neu a achosir ganddo. Mae trefniadau rheoli risgiau ar gyfer risgiau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19 yn

parhau fel a nodir yn y strategaeth rheoli risgiau gyda risgiau corfforaethol yn cael eu haseinio i gyfarwyddwr gweithredol arweiniol gyda throsolwg a chraffu'n cael eu darparu naill ai gan y Bwrdd neu gan bwyllgor penodedig. Mae fformat y gofrestr risgiau corfforaethol wedi newid o'r fformat 'risg ar dudalen' syml a gyflwynwyd yn 2019 i fformat tablaidd gyda gwaith pellach yn yr arfaeth i gofnodi canlyniad ac effaith camau lliniaru risgiau. Mae gweithgarwch gan bwyllgorau i graffu ar y gofrestr risgiau corfforaethol ar ei newydd wedd wedi dechrau'n ddiweddar.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal systemau ansawdd a diogelwch ar gyfer cleifion a'r gweithlu

34 Ym **mharagraff 24**, rydym yn cyfeirio at y dull a ddogfennir gan y Bwrdd Iechyd o addasu a chynnal trefniadau llywodraethu da yn ystod y pandemig. Roedd y ddogfen hon yn ei gwneud yn glir bod gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion rôl hollbwysig o ran sicrhau bod asesiadau ansawdd a risg yn cael eu gwneud o gamau gweithredu a gymerir yn ystod y pandemig a bod y sefydliad yn gweithio er budd pennaf y cyhoedd a staff. Hefyd, byddai Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant, sy'n aelod o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, yn sicrhau bod buddiannau iechyd a diogelwch staff yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor. Cynhaliodd y Pwyllgor fusnes fel arfer gyda sicrwydd perthnasol a chraffu ar faterion sy'n gysylltiedig â COVID-19 fel a nodir yn nodyn cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar gyflawni cyfrifoldebau pwyllgorau byrddau a gyhoeddwyd yn gynnar ym mis Mai.

35 Yn 2019, fe wnaethom adrodd bod amseroldeb ac ansawdd ymatebion i gwynion a phryderon yn gwella ond bod angen cynnydd pellach, tra nad oedd adroddiadau rheolaidd yn cael eu darparu ar brofiad a deilliannau cleifion. Fe barhaodd gwaith i wella trefniadau llywodraethu ansawdd yn ystod y pandemig er bod cyflymder y cynnydd wedi arafu o ystyried bod staff o rai timau, megis Gweithio i Wella a Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, wedi'i hadleoli i rolau rheng-flaen. Ym mis Ebrill, fe gytunodd y Tîm Gweithredol ar brosesau dros dro i gefnogi cydymffurfiaeth â Rheoliadau Gweithio i Wella o ystyried mai amser cyfyngedig oedd gan staff rheng-flaen i ymchwilio ac ymateb i gwynion a digwyddiadau. Fe wnaeth is-adrannau adolygu'r holl bryderon i gadarnhau pa rai y gellid eu cwblhau neu i sicrhau bod llythyrau'n cael eu hanfon at yr holl achwynwyr lle gallai fod oedi cyn ymateb. Roedd y gyfradd o ran cydymffurfio â'r targed i ymateb o fewn 30 diwrnod yn 71% ar ddiwedd mis Mehefin, i fyny o 52% yn ystod brig y pandemig ym mis Ebrill. Cafodd ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol eu cyflawni fesul achos unigol gyda'r gyfradd o ran cydymffurfio â'r targed i gau ymchwiliadau o fewn 60 diwrnod yn 62% ar ddiwedd mis Mehefin.

36 Cafodd paratoadau i gyflwyno mesurau profiad a adroddwyd gan gleifion (PREMs) ar draws is-adrannau eu hatal yn ystod y pandemig o ystyried bod y Tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar Gleifion wedi'i adleoli. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion wedi cael gwybodaeth am waith i wella profiad cleifion mewnol o ystyried bod ymweliadau ag ysbytai wedi'u hatal. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymweliadau

rhithwir gan ddefnyddio technoleg ddigidol, sefydlu gwasanaeth negeseuon e-bost (Neges o Adref) a Llinell Gymorth Gwybodaeth a Phryderon a reolir gan y Tîm Gweithio i Wella. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am brofiad cleifion yn y gymuned neu mewn lleoliadau gofal eraill wedi'i chynnwys. Mae adroddiad diweddaraf y Pwyllgor ar Brofiad Cleifion (Medi 2020) yn darparu cyfrif naratif o adborth cleifion ar draws nifer o feysydd gwasanaeth, gan gynnwys y gymuned, a gasglwyd yn union cyn ac yn ystod COVID-19. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn darparu enghreifftiau o fyfyrdodau staff ynglŷn â ffyrdd newydd o ymgysylltu â chleifion lle na ellir cynnal apwyntiadau wyneb yn wyneb.

37 Yn 2019, fe amlygon ni'r diffyg cynnydd o ran datblygu proses ar gyfer adrodd ar argymhellion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Yn ystod y pandemig, fe barhaodd y Bwrdd Iechyd i fonitro cynnydd o ran rhoi argymhellion AGIC ar waith mewn perthynas â Gwasanaethau Mamolaeth ac fe ataliodd weithgarwch i fonitro cynnydd gydag argymhellion eraill tan yr haf. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu offeryn tracio newydd, y bydd y Tîm Gweithredol yn ei adolygu ym mis Hydref 2020 ac yn ei adolygu'n chwarterol wedi hynny cyn pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Felly, nid oedd yr adroddiad diweddaraf i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn nodi'r cynnydd yn erbyn argymhellion AGIC, ond roedd yn amlygu meysydd lle mae angen gwelliannau sylweddol, gan gynnwys dysgu sefydliadol. Ym mis Awst 2020, cyfarfu Bwrdd y sefydliad â Phrif Weithredwr a Rheolwr Perthnasoedd AGIC i gael Adroddiad Blynyddol drafft AGIC cyn ei gyhoeddi. Roedd hon yn drafodaeth bwysig ynglŷn â'r rhaglen o waith a gwblhawyd gan AGIC yn y flwyddyn ddiwethaf a chynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan AGIC.

38 Fel rhan o'r ymateb i COVID-19, fe ataliodd Llywodraeth Cymru y gofynion ar gyfer adolygiadau o farwolaethau 'arferol' gan ofyn i fyrddau iechyd ganolbwyntio'r adolygiadau ar farwolaethau a oedd yn achosi pryder. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i gynnal adolygiadau o farwolaethau gan ganolbwyntio ar gleifion mewnol a fu farw o COVID-19, ac achosion lle ceir digwyddiadau difrifol neu gwynion. Mae'r adroddiad diweddaraf ar berfformiad i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn dynodi, ym mis Mehefin 2020, bod y gyfran o'r adolygiadau o'r holl farwolaethau a gwblhawyd o fewn 28 diwrnod i'r farwolaeth oddeutu 38%. Mae'r gyfradd gydymffurfio ymhell islaw'r targed o 95% ac nid yw'n annhebyg i adegau eraill yn y flwyddyn cyn y pandemig. Mae hwn yn un o'r meysydd y mae angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio arnynt i gyflawni gwelliannau.

39 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fonitro ystod o fetrigau ansawdd ac adrodd wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gan gynnwys COVID-19, thrombosis a gafwyd yn yr ysbyty, gofal strôc a chwympiadau gan gleifion mewnol, ond mae metrigau perfformiad yn dal i fod yn canolbwyntio ar ysbytai yn unol â Fframwaith Cyflawni GIG Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu metrigau ansawdd a diogelwch cleifion ehangach i adlewyrchu ehangder ei fusnes fel rhan o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Diogelwch a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2020. Yn y cyfamser, mae gwaith i adolygu materion ansawdd a diogelwch cyn y pandemig

bellach yn ailddechrau go iawn. Er enghraifft, cytunodd y Tîm Gweithredol yn ddiweddar ar ystod o gamau gweithredu wedi'u diweddaru ar gyfer atal a rheoli cwympiadau gan gleifion mewnol, tra bo cyfarfodydd adolygu sepsis wythnosol wedi cael eu hailsefydlu.

40 Mae lles staff wedi bod yn un o'r blaenoriaethau allweddol trwy gydol y pandemig. Bu'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â sefydliadau sy'n cynrychioli staff i gefnogi newidiadau mewn arferion gweithio, rheoli risgiau a gwybodaeth a diogelwch ar gyfer staff, gyda chynrychiolwyr undebau llafur yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i gyfarfodydd Grŵp Gweithredol y gweithlu.

41 Fe gymeradwyodd y Grŵp Strategol gynllun lles staff i liniaru effaith seicogymdeithasol COVID-19 ac fe gyflwynwyd ystod o fentrau lles. Roedd mentrau lles yn cynnwys cymorth seicolegol i'r holl staff trwy'r Gwasanaeth Lles Cyflogeion mewnol a'r llinell ffôn cymorth gan gymheiriaid. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal cyfres o arolygon lles staff ac ar adeg ein gwaith ni, roedd canfyddiadau o'r arolwg cyntaf yn cael eu dadansoddi. Yn 2019, roedd y Bwrdd Iechyd yn pwyso a mesur dichonoldeb creu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Lles Cyflogeion ac yn ddiweddar fe gytunodd y Tîm Gweithredol i'w sefydlu ar dir yr ysbyty newydd, YPG.

42 Bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu canllawiau a phroses asesu risgiau ar gyfer staff y nodwyd eu bod yn agored i niwed, gan gynnwys staff o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME). Ers hynny mae wedi rhoi Offeryn Asesu Risgiau'r Gweithlu COVID-19 Cymru Gyfan ar waith gyda 556 o asesiadau risg wedi'u cwblhau hyd yma a phum aelod o staff o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi'u hadnabod fel rhai sy'n wynebu risg uchel. Hefyd, mae mwy nag 800 o asesiadau risg wedi cael eu cwblhau gan staff banc ac asiantaeth sy'n eu hystyried eu hunain yn Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi rhannu Offeryn Asesu Risgiau'r Gweithlu COVID-19 Cymru Gyfan gyda darparwyr asiantaeth i sicrhau bod yr holl staff a allai fod yn wynebu risg yn cael eu hadnabod. Ar gyfer staff y nodwyd eu bod yn wynebu risg, mae'r Bwrdd Iechyd wedi hwyluso trefniant gweithio o bell i gefnogi'r aelodau hynny o staff sy'n gwarchod neu'n hunan-ynysu neu wedi adleoli staff i'w hamddiffyn. I ddechrau, roedd mwy na 1,200 o staff yn hunan-ynysu neu'n gwarchod ond gyda chymorth gan dîm y gweithlu roedd mwy na 900 o staff yn gallu dychwelyd i'r gwaith yn ddiogel. Ar ddiwedd mis Mehefin, mae 3% o staff yn dal i fod yn gwarchod neu'n hunan-ynysu.

43 Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Lleihau Trosglwyddiad Nosocomaidd ym mis Mehefin i ddarparu trosolwg ar y llwybrau COVID a llwybrau eraill, dehongli canllawiau cenedlaethol i'w defnyddio'n lleol a nodi prosesau ar gyfer ailgychwyn gwasanaethau hanfodol yn ddiogel. Mae'n adrodd wrth y Grŵp Strategol. Cafodd grŵp tasg a gorffen amlddisgyblaethol, dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Iechyd a Diogelwch, ei sefydlu hefyd. Ei ddiben yw datblygu a gweithredu systemau a phrosesau i sicrhau yr ymlynir wrth ofynion cadw pellter cymdeithasol. Cafodd proses asesu risgiau ei llunio a'i dosbarthu i gael ei chwblhau gan yr holl adrannau

ac mae archwiliadau monitro cadw pellter cymdeithasol yn cael eu cynnal. Mae'r grŵp yn cwrdd yn wythnosol ac yn adrodd wrth y Grŵp Tactegol.

### Mae cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio'n dal i fod yn destun craffu a herio

44 Ym mis Ionawr 2020, fe eglurodd y Pwyllgor Archwilio ei ddisgwyliadau o ran derbyn, gweithredu a monitro argymhellion archwilio o fewn graddfeydd amser y cytunwyd arnynt. Mae disgwyliadau'r Pwyllgor yn cynnwys fframio argymhellion gan ddefnyddio egwyddorion CAMPUS[4] a'r broses ar gyfer cytuno ar argymhellion rhwng archwilwyr a swyddogion. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd egluro'r math o wybodaeth sy'n ofynnol i ategu tystiolaeth o gynnydd, i gytuno â cheisiadau i estyn terfynau amser gweithredu neu i gau argymhellion ar gyngor y Tîm Gweithredol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ceisio gwybodaeth am effaith argymhellion ar y Bwrdd Iechyd fel rhan o'r diweddariadau rheolaidd ar gynnydd a phan ofynnir i'r Pwyllgor gau argymhellion a'u tynnu o'r log tracio.

45 Yn ystod y pandemig, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi parhau i graffu ar gynnydd yn erbyn argymhellion archwilio mewnol ac allanol, gan herio cyflymder y cynnydd yn rheolaidd o ystyried bod rhai camau gweithredu'n cymryd yn rhy hir i'w cwblhau. Mae cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio wedi arafu ymhellach yn ystod y pandemig ac fe geisiodd y Pwyllgor wybodaeth am liniaru a therfynau amser ar gyfer cwblhau lle mae oedi parhaus cyn gweithredu'n achosir risgiau i ddiogelwch. Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, cafodd cyfarfod y Pwyllgor sicrwydd bod y Tîm Gweithredol wedi adolygu'r holl argymhellion a oedd wedi'u cofnodi ar yr offeryn tracio o ran eu perthnasedd parhaus.

[4] CAMPUS – Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol

# Rheoli adnoddau ariannol

46 Fe wnaeth ein gwaith hefyd ystyried perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno. Canfuom fod **rheolaeth ariannol yn dal i fod yn gadarn ond bod costau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn creu risg o ddiffyg ariannol**.

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

### Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol, ond mae costau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn debygol o arwain at fethiant i fantoli'r cyfrifon yn 2020-21

#### Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd fantoli'r cyfrifon yn 2019-20 a chyflawnodd ei ddyletswyddau ariannol

47 Fe barhaodd y Bwrdd Iechyd â'i hanes o fantoli'r cyfrifon yn 2019-20 ac fe gadwodd warged bach iawn (£32,000). Fe wnaeth hefyd gyflawni arbedion wedi'u cynllunio a oedd yn gyfanswm o £16.8 miliwn, a oedd yn cynnwys creu incwm ac enillion cyfrifyddu. Fe arhosodd y Bwrdd Iechyd o fewn ei derfyn gwariant cyfalaf o £132.4 miliwn hefyd gyda thanwariant bach o £28,000. Mae effaith COVID-19 yn golygu ei fod yn cario cyllid cyfalaf yn ôl disgresiwn sy'n gyfanswm o £782,000 ymlaen yn 2020-21 gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Cyflawnodd ddyletswyddau ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20 hefyd ac i fod â CTCI cymeradwy ar gyfer y cyfnod o 2019-20 i 2021-22.

48 Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn cynnwys £1.1 miliwn o wariant refeniw a oedd yn gysylltiedig â COVID-19. Cafodd dros hanner (55%) y costau ychwanegol hyn a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 eu gwrthbwyso gan ostyngiadau mewn gwariant ar draws y Bwrdd Iechyd gyda'r gweddill yn cael eu hariannu â chyllid gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y Bwrdd Iechyd gyllid Cyfalaf Cymru gyfan ychwanegol ym mis Mawrth hefyd i gefnogi ei ymateb i COVID-19 i ariannu gwaith hanfodol i adeiladau, offer a gofynion o ran TG. Mae'n disgwyl ysgwyddo'r rhan fwyaf o gostau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn ystod 2020-21.

#### Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gyflawni ei gynllun ariannol ond mae costau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn creu risg o ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2020-21

49 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ddirprwyo cyllidebau yn erbyn set gytunedig o egwyddorion dyrannu adnoddau. Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2020, fe gymeradwyodd y Bwrdd gynllun ariannol 2020-21, penderfyniadau ynglŷn â

dirprwyo cyllidebau gweithredol a’r cynllun cyfalaf a oedd yn gyfanswm o £90.4 miliwn. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae’r Bwrdd Iechyd wedi creu cronfa wrth gefn ar gyfer risgiau ariannol fel rhan o’r broses dirprwyo cyllidebau. Ac eithrio ymrwymiadau wedi’u cynllunio sy’n gyfanswm o £66.5 miliwn, nid yw’r Bwrdd Iechyd yn dal cyllid wrth gefn i ariannu diffygion is-adrannol, sy’n cynyddu ymhellach yr angen i gyflawni arbedion eleni.

50 I fantoli’r cyfrifon yn 2020-21, fe bennodd y Bwrdd Iechyd darged arbedion o £33.4 miliwn (gan gynnwys £7 miliwn o arbedion effeithlonrwydd gweithredol) i fynd i’r afael â phwysau o ran costau, ac i roi cymorth i symud adnoddau yn unol â’i flaenoriaethau. Mae’r Bwrdd Iechyd yn amcangyfrif diffyg mewn arbedion o oddeutu £28 miliwn oherwydd yr ymateb parhaus i COVID-19. Ar ddiwedd mis Gorffennaf, dim ond £2 filiwn o arbedion yr oedd wedi’u cyflawni.

51 Ym mis Ebrill, fe baratôdd y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol COVID-19 ar gyfer pedwar mis cyntaf 2020-21 i eistedd ochr yn ochr â’r CTCI. Roedd y cynllun COVID-19 yn seiliedig ar asesiad o effaith ariannol net COVID-19 gyda chost gronnus amcangyfrifedig o £30.2 miliwn hyd at ddiwedd mis Gorffennaf. Roedd cyfanswm y gwariant yr adroddwyd arno ar COVID-19 hyd at ddiwedd mis Gorffennaf yn £26.5 miliwn, yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi ariannu dros dair rhan o bump (62%) ohono o ostyngiadau wedi’u cynllunio mewn costau a llithriant ar fuddsoddiadau arfaethedig oherwydd COVID-19.

52 Mae’r Bwrdd a’r Pwyllgor Archwilio yn cael gwybodaeth fanwl ac amserol ym mhob cyfarfod i’w gwneud yn bosibl craffu’n effeithiol ar berfformiad ariannol, gan gynnwys cyflawni arbedion a ffactorau sy’n rheoli costau mewn perthynas â COVID-19, risgiau ariannol a goblygiadau o ran costau. Darperir diweddariadau cynhwysfawr ar lafar o ystyried pa mor gyflym y mae newidiadau’n digwydd, gan gynnwys goblygiadau ariannol materion perthnasol eraill. Mae’r wybodaeth yn yr adroddiadau cyllid yn gyson â ffigyrau ac amrywiannau cyllidebol yr adroddwyd arnynt bob mis wrth Lywodraeth Cymru.

53 Hefyd, gofynnwyd i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ac Ymgynghorydd Arbenigol y Bwrdd (Cyllid) fynd ati ar ran y Bwrdd i oruchwylio’r gwaith sy’n cael ei wneud gan y Cyfarwyddwr Cyllid ar heriau a chost-effeithiolrwydd gwasanaethau, cynllun ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21 a’r defnydd o adnoddau ychwanegol sy’n ofynnol yn ystod y pandemig. Caiff eu casgliadau eu bwydo’n ôl i’r Cadeirydd a’r Bwrdd gyda gwybodaeth am y gweithgareddau hyn yn cael ei chylchredeg yn y modd priodol.

54 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i fynd ati’n barhaus i asesu a rheoli effaith ariannol COVID-19 ochr yn ochr ag effaith darparu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19, er mwyn mantoli’r cyfrifon yn 2020-21. Mae’n dal i ddynodi na ellir ariannu costau mynd i’r afael â phandemig COVID-19 o fewn y cyllid sydd ar gael iddo. Ar ddiwedd mis Gorffennaf, roedd gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £8.05 miliwn yn erbyn y CTCI gyda diffyg alldro rhagamcanol o £68.7 miliwn, y mae’n ei briodoli i COVID-19. Mae’r diffyg rhagamcanol yn cynnwys costau amcangyfrifedig trefnu bod rhan o YPG ar gael yn gynharach nag a

fwriadwyd a'i agor yn gynnar o fis Tachwedd 2020 fel rhan o'r ymateb wedi'i gynllunio gan y Bwrdd Iechyd i COVID-19.

## Rheolaethau ariannol

### Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd y newidiadau angenrheidiol i reolaethau ariannol mewn ymateb i COVID-19 gyda mecanweithiau wedi'u sefydlu i asesu cydymffurfiaeth

55 Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r newidiadau dros dro i'w Gynllun Dirprwyo (gweler **paragraff 21**) gyda'r Pwyllgor Archwilio'n cael gorchwyl i oruchwylio penderfyniadau ynglŷn â gwariant a oedd yn cael eu gwneud gan y Grwpiau Strategol a Thactegol. Canfu adolygiad cyflym y gwasanaeth Archwilio Mewnol o lywodraethu fod gwariant yn cael eu awdurdodi yn unol â'r terfynau awdurdodi diwygiedig. Fe wnaethant hefyd amlygu cyfleoedd i wella'r wybodaeth a oedd yn cael ei chofnodi mewn logiau o benderfyniadau ac i weithredu fframwaith penderfynu a oedd yn egluro haenau awdurdodi.

56 Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd fecanwaith i dracio gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac unrhyw newidiadau eraill mewn gwariant gweithredol o ganlyniad i atal gweithgarwch arferol. Canfu adolygiad cyflym y gwasanaeth Archwilio Mewnol o lywodraethu hefyd fod gwariant a oedd wedi'i godio gan ddefnyddio codau canolfannau costau COVID-19 yn cael ei adolygu'n weithredol gan y tîm cyllid i sicrhau bod archebion yn briodol ac yn cael eu hawdurdodi'n gyflym.

57 Mae gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cael ei gofnodi ar y ffurflenni monitro misol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru, a gaiff eu rhannu gyda'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio'n cael gwybodaeth yn rheolaidd am wariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac effaith ymateb i COVID-19 ar arbedion wedi'u cynllunio ac effeithlonrwydd a buddsoddiadau.

58 Er mwyn cefnogi llif arian cyflenwyr yn ystod y pandemig, fe newidiodd y Bwrdd Iechyd y ffordd y gwneir taliadau ar gyfer anfonebau o dan £500, lle caiff taliad ei wneud pan gyflwynir anfoneb, nid ar ôl cael y nwyddau. Ar adeg paratoi'r adroddiad, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda chydweithwyr o Gydwasanaethau a Gwasanaeth Caffael GIG Cymru i sicrhau bod taliadau'n cael eu gwirio'n ôl-weithredol.

59 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael ag argymhellion y gwasanaeth Archwilio Mewnol i gryfhau rheolaethau ariannol sy'n gysylltiedig â systemau cyfalaf yn yr adran ystadau a'r tîm caffael. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n dal i gymeradwyo gweithdrefnau rheolaeth ariannol, gan gynnwys y polisi caffael, y gwnaeth y Bwrdd Iechyd ei ddiweddaru'n ddiweddar.

# Cynllunio gweithredol

60 Fe wnaeth ein gwaith ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, roedd y ffocws ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gwasanaethau arferol a rheolaidd pan fo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny. Canfuom fod **cynlluniau chwarterol yn nodi sut y bydd gwasanaethau wedi'u cynllunio'n cael eu hailgychwyn yn ddiogel a pha adnoddau fydd eu hangen, er nad yw'r drefn ar gyfer adrodd ar eu cyflawni wedi cael ei sefydlu eto**.

## Datblygu cynlluniau gweithredol chwarterol

### Cafodd cynlluniau chwarterol eu goleuo gan ymarferion modelu data, eu datblygu mewn ffordd amserol ac maent yn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru ac elfennau pwysig o'r Strategaeth Dyfodol Clinigol

61 Cafodd proses y CTCI ar gyfer 2020-23 ei hatal i ganiatáu i sefydliadau ganolbwyntio ar gynllunio ar gyfer COVID-19 ac i gyfeirio adnoddau at heriau gweithredol. Mae CTCI 2019-22 yn dal i fod mewn bodolaeth ond yn y tymor byr, mae'n ofynnol i gyrff y GIG ddatblygu cynlluniau gweithredol ailadroddol ar gyfer pob chwarter. Mae'r cynlluniau gweithredol chwarterol hyn yn nodi paratoadau ar gyfer brigau COVID-19 yn y dyfodol, darparu gwasanaethau hanfodol, sydd wedi'u cynnwys fel blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn CTCI y Bwrdd Iechyd, ac ailgychwyn gwasanaethau rheolaidd pan fo'n ddiogel gwneud hynny.

62 Aeth y Bwrdd Iechyd ati'n gyflym i ddatblygu ei gynlluniau gweithredol chwarterol yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru a chyda chynlluniau drafft wedi'u cyflwyno ar amser tra'r oedd ystyriaeth a chymeradwyaeth gan y Bwrdd yn yr arfaeth. O ystyried pa mor gyflym y datblygwyd y cynlluniau chwarterol, ni fu Aelodau Annibynnol yn rhan o gytuno ar flaenoriaethau gweithredol ac yn lle hynny cawsant eu hysbysu'n gyson ynghylch blaenoriaethau trwy sesiynau briffio rheolaidd a phresenoldeb yn y Pwyllgor Cynllunio a Newid Strategol sydd newydd gael ei ailgychwyn.

63 Wrth ymateb i'r pandemig, fe gyflymodd y Bwrdd Iechyd agweddau ar y strategaeth Dyfodol Clinigol, er enghraifft canoli gwasanaethau llawfeddygaeth frys a thrawma cyn agor YPG a rhoi ffyrdd newydd o weithio ar waith, megis ymgyngoriadau fideo mewn gofal sylfaenol a gwasanaethau cleifion allanol. Gan ddefnyddio Fframwaith Gwasanaethau Hanfodol a chanllawiau proffesiynol Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi asesu a yw'n cynnal gwasanaethau hanfodol unigol ac wedi adnabod risgiau gweithredol a blaenoriaethau ar gyfer cyflawni. Roedd asesiad y Bwrdd Iechyd wedi'i gynnwys yn ei gynlluniau

chwarterol, gan gynnwys arwydd sut y mae cleifion yn cael eu blaenoriaethu ar sail angen clinigol neu gyflwr.

64 Mae'r Bwrdd Iechyd yn taro cydbwysedd rhwng ailgychwyn gwasanaethau a'r angen i gynnal gwasanaethau hanfodol a'r angen parhaus i gyfyngu ar ymlediad COVID-19 a'i drin. Y flaenoriaeth yw ailsefydlu gwasanaethau rheolaidd ar gyfer cleifion allanol a diagnosteg a llawdriniaethau wedi'u cynllunio. Caiff cynlluniau ar gyfer y galw a chapasiti mewn perthynas â COVID-19 eu goleuo gan fodel data Llywodraeth Cymru a phrofiad mewn gwirionedd, megis cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch a defnydd gwelyau, yn ystod ton gyntaf y pandemig. Caiff cynllun chwarter dau ei danategu hefyd gan gyfres o gynlluniau cyflawni ar gyfer arbenigeddau, a oleuwyd gan Grŵp Lleihau Trosglwyddiad Nosocomaidd a fframwaith moesegol y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â chanllawiau proffesiynol cenedlaethol ac arbenigol.

## Adnoddau i gyflawni'r cynllun

### Mae cynlluniau adnoddau'n canolbwyntio ar sicrhau capasiti digonol o ran staff a gofal wedi'i gynllunio gyda ffocws ar ddatblygu ffyrdd ystwyth a newydd o weithio

65 Roedd y Bwrdd Iechyd, fel sefydliadau eraill, yn wynebu heriau sylweddol oherwydd COVID-19 mewn perthynas â threfniadau gweithio staff a chynllunio'r gweithlu i ateb y galw mewn amgylchedd a oedd yn newid yn gyflym. Fe weithredodd y Bwrdd Iechyd yn gyflym i ymateb i'r heriau hyn gan gynnwys:

- mynd ati'n gyflym i ddatblygu set o bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn cwmpasu gweithio gartref, profi staff, absenoldeb oherwydd salwch, recriwtio a lleoli;
- datblygu dangosfwrdd y gweithlu mewn perthynas â COVID-19, yr oedd adroddiad wythnosol arno'n cael ei ddarparu ar gyfer y Grŵp Strategol; a
- mynd ati'n ddyddiol i fonitro absenoldeb oherwydd salwch ar draws pedwar categori (atal am resymau meddygol, salwch a oedd yn gysylltiedig â COVID-19, salwch arall a salwch a oedd yn gysylltiedig â straen).

66 Fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd gynlluniau manwl ar gyfer y gweithlu i gynnal gwasanaethau rheng-flaen yn ystod y pandemig, gan gynnwys y gweithlu gofal critigol, capasiti ymchwydd staffio a pharatoi ar gyfer agoriad rhannol YPG yn hytrach na datblygu ysbyty maes ar wahân. Mae cynlluniau'r gweithlu'n seiliedig ar dybiaethau ynglŷn â chyfradd absenoldeb staff ar y cyfan o 20%, cyfraddau trosiant arferol a chyfleoedd i adleoli staff clinigol. Fe gynigiodd y Bwrdd Iechyd gontractau cyflogaeth cyfnod penodedig neu barhaol i 112 o staff [5] i gefnogi

[5] Mae'r aelodau hyn o staff yn cynnwys Nyrsys Cofrestredig, Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, Cynorthwywyr Gofal Cleifion a Gweithredwyr Cyfleusterau.

cynlluniau ar gyfer gweithlu ymchwydd COVID-19 yn uniongyrchol gyda'r aelodau hyn o staff yn rhoi cyfrif am ryw 25 i 30% o'r gweithlu gofynnol. Bydd staff ychwanegol i gefnogi unrhyw ymchwydd yn cael eu tynnu o fanc adnoddau'r Bwrdd Iechyd, a gyflogodd 500 o aelodau newydd o staff. Mae asesiadau risg wedi cael eu cwblhau i asesu risgiau o ran y gweithlu sy'n gysylltiedig ag agor YPG yn gynnar ym mis Tachwedd fel rhan o ymateb y Bwrdd Iechyd i COVID-19 a phwysau yn y gaeaf.

67 Mae'r Tîm Gwybodeg wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw ar draws ei holl wasanaethau yn ystod y pandemig hefyd ac nid yw'r galw'n lleihau, sy'n effeithio ar ei allu i gyflawni blaenoriaethau presennol. I fynd i'r afael â hyn mae'r Tîm Gwybodaeth wedi adnabod meysydd critigol lle mae angen buddsoddi i greu capasiti a chyflawni Strategaeth Ddigidol y Bwrdd Iechyd a chefnogi trefniadau gweithio ystwyth.

68 Tanategir cynlluniau chwarterol y Bwrdd Iechyd gan asesiad ariannol o effaith COVID-19 yn seiliedig ar dybiaethau cynllunio gweithredol a rhagolygon sy'n ymwneud â chapasiti gwelyau a'r gweithlu gofynnol.

69 Bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'i gontractwyr i baratoi ar gyfer agoriad rhannol YPG rhag ofn y byddai angen capasiti ymchwydd ychwanegol ar gyfer COVID-19. Hyd yma, mae wedi ateb y galw mewn perthynas â COVID-19 gan ddefnyddio'r capasiti presennol. Bwriedir agor YPG yn llawn o fis Tachwedd 2020. Ar adeg ein gwaith archwilio, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai angen capasiti ehangach o ran ysbytai maes rhanbarthol gyda'r potensial ar gyfer gweithio'n rhanbarthol yng nghyd-destun ysbytai maes, cynllunio ar gyfer y gaeaf a chynyddu gweithgarwch rheolaidd yn faterion a fyddai'n cael eu hystyried fel rhan o'i waith cynllunio ar gyfer chwarteri tri a phedwar.

70 Cymerodd y Bwrdd Iechyd y cyfle i ddefnyddio contract diogel Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i roi comisiwn i'r sector annibynnol i ddarparu rhai gwasanaethau hanfodol, megis llawdriniaethau brys a diagnosteg. Mae'n bwriadu comisiynu trefniadau tebyg yn y dyfodol i sicrhau safle 'diogel o ran COVID' ar gyfer gofal dewisol os ceir ail ymchwydd o COVID-19.

71 Mae'r cynlluniau chwarterol yn disgrifio ystod o ffyrdd newydd o weithio a gyflwynwyd mewn ymateb i COVID-19 gyda llawer o'r rhain yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn barhaus ac ailgychwyn gwasanaethau rheolaidd o ystyried gofynion cadw pellter cymdeithasol. Mae ffyrdd newydd o weithio'n cael eu gwerthuso i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn eu cynnal ac yn eu sefydlu fel rhan o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol lle y bo'n briodol. Mae tîm ABCi[6] y Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal arolwg i gasglu enghreifftiau o arfer arloesol yn ystod y cyfnod hwn. Ar adeg ein gwaith archwilio, nid oedd canlyniad y gwerthusiad a gwaith arolygu yma wedi cael ei wneud yn hysbys i'r Bwrdd na'i bwyllgorau eto.

[6] Mae tîm Gwella'n Barhaus Aneurin Bevan (Aneurin Bevan Continuous Improvement – ABCi) yn gweithio i gynorthwyo cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i wella gwasanaethau a dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio.

72 Fe wnaeth COVID-19 hefyd gyflymu’r broses o gyflwyno arferion gweithio ystwyth (ble, sut a phryd y gwneir gwaith) ar draws y Bwrdd Iechyd gyda staff a allai weithio gartref yn cael eu hannog i wneud hynny. Cynhaliwyd arolwg o’r holl staff corfforaethol o ran eu profiadau o arferion gweithio ystwyth yn ystod y pandemig gyda’r ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan. Cafodd yr arolwg gweithio ystwyth ei ddiwygio’n ddiweddar yn dilyn adborth gan staff corfforaethol ac ar ddechrau mis Awst cyflwynwyd yr arolwg i’r holl staff. Fe lansiodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith/Pecyn Cymorth Gweithio Ystwyth ar ddechrau mis Awst.

## Monitro’r modd y cyflawnir y cynllun gweithredol

### Nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi adrodd ar gyflawni ei gynlluniau chwarterol eto

73 Er bod y trefniadau monitro perfformiad cenedlaethol wedi cael eu hatal i raddau helaeth, mae’r Bwrdd Iechyd wedi parhau i oruchwylio’r deilliannau a’r fframwaith perfformiad cenedlaethol. Mae COVID-19 wedi effeithio’n gadarnhaol ac yn negyddol ar berfformiad. Er enghraifft, mae canslo gweithgarwch dewisol wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y cleifion sy’n disgwyl am fwy na 36 wythnos i gael triniaeth tra bo amseroedd aros mewn adrannau achosion brys wedi gwella oherwydd gostyngiad mawr yn y niferoedd oedd yn mynd yno. Mae’r adroddiad diweddaraf ar berfformiad yn darparu cliplun o berfformiad o’i gymharu â’r cyfnodau cyn COVID-19 i ganfod yr effaith ar wasanaethau ond nid yw’n rhoi unrhyw wybodaeth sy’n meintioli’r niwed posibl a achoswyd gan y gostyngiad mewn gweithgarwch gofal iechyd yn ystod y pandemig.

74 Mae cynllun chwarter dau’n amlygu ystod o flaenoriaethau i’w defnyddio i fonitro’r modd y caiff ei gyflawni, ond nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi adrodd ar y modd y caiff ei gyflawni eto. Mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn y cynlluniau gweithredol chwarterol, mae’r Bwrdd Iechyd wedi dynodi y bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Mae cyfle i’r Bwrdd Iechyd ddarparu arwydd cliriach o’r camau gweithredu, cerrig milltir a deilliannau y mae’n amcanu at eu cyflawni yn ei gynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar. Bydd hyn yn ei wneud yn haws monitro cynnydd a’r modd y cyflawnir y cynllun.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.